# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwenllian Mair Williams** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679469** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth Iaith Gwynedd 2018** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet ar y fersiwn ymgynghori o Strategaeth Iaith 2018.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y strategaeth a'r blaenoriaethau a nodir ynddi, a'u bod yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod mewn cynlluniau eraill megis Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Yn unol â gofyn Safon 145 (Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein ardal.

3.2 Mae angen i'r strategaeth honno, ymysg pethau eraill, nodi targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir.

3.3 Mae Strategaeth iaith gyfredol Gwynedd yn weithredol ers 2014 a chafodd ei chyhoeddi yn enw Hunaniaith, gyda'r Cyngor yn brif bartner iddi. Hunaniaith fuo yn bennaf gyfrifol am weithrediad y Strategaeth honno.

3.4 Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei gyrru gan y Cyngor, a bydd gofyn i holl adrannau'r Cyngor, yn ogystal â phartneriaid allanol gyfrannu tuag at weithredu ei hamcanion.

3.5 Mae'r Strategaeth wedi ei hysgrifennu fel dilyniant i'r strategaeth flaenorol, ond gan hefyd adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r meysydd gweithredu a nodir yn Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.

3.6 Bydd y Strategaeth hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wneir yng nghyswllt yr iaith yng Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn yn ogystal ag ymrwymiadau ehangach ym meysydd addysg a chynllunio.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cynnigir bod y Strategaeth yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mawrth ac Ebrill, gan gynnwys ei chyflwyno i'r Pwyllgor Iaith yn eu cyfarfod ar y 25ain o Ebrill.

4.2 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, byddwn yn dechrau gwaith ar y cynllun gweithredu, cyn cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn yr haf.

4.3 Bwriedir dod a'r Strategaeth yn ôl at y Cabinet i'w chymeradwyo fel dogfen derfynol yn eu cyfarfod ar 12fed Mehefin, cyn mynd i gael cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar y 12fed o Orffennaf 2018.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Cynhaliwyd gweithdy gydad aelodau'r Pwyllgor Iaith ym mis Hydref 2017 er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfranu a chynnig syniadau am flaenoriaethau'r Strategaeth. Cynhaliwyd trafodaeth gyda swyddogion Hunaniaith hefyd, ac yn benodol felly ar y blaenoriaethau oedd yn ymwneud a hybu'r iaith yn y gymuned.

5.2 Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro:

Deillia y gofyn ar gyfer paratoi y Strategaeth Iaith o ofynnion y Safonau Iaith sydd wedi eu gosod ar y Cyngor drwy ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rwy'n cefnogi'r bwriad i gyflwyno'r Strategaeth derfynol i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu sydd yn gam y caniatier gan Atodlen 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

Swyddog Cyllid:

Mae'r Strategaeth Iaith arfaethedig yn adnabod sawl gweledigaeth, digwyddiad neu gynllun, ond derbyniais gadarnhad gan awdur yr adroddiad y bydd modd i wasanaethau perthnasol y Cyngor weithredu fel bo angen o fewn adnoddau cyfredol yr adrannau perthnasol.